Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Medi 2018

Full Council Meeting for the month of September 2018

Rhoddir rhybudd y cynhelir Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ar **Nos Lun, 17 Medi 2018 yn Canolfan Y Fron i gychwyn 7.30 yr hwyr** ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.

Notice is herby given that the next Monthly meeting of the Council will be held on **Monday, 17 September 2018 at Canolfan y Fron to commence 7:30 pm** and you are summoned to appear

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.

Amgaeaf y canlynol i chwi
The following is enclosed -

1) Rhaglen Cyfarfod 17 Medi 2018- Agenda for the Council Meeting 17th of September 2018
2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 16 Gorffennaf 2018 - Draft Minutes of the Council Meeting 16 July 2018.
3) Cofnodion drafft Panel Trefniadau Gwaith Y Clerc a gynhaliwyd 12 Medi 2018 - Drafft Minutes of the Clerks Terms & Conditions of Employment Panel held 12th of September 2018

Cyfarfod / Meeting	**Cyngor Llawn – Full Council**
Dyddiad / Date	**Nos Lun, 17 Medi 2018 / Monday 17 September 2018**
Amser/ Time	**7.30 yr hwyr / pm**
Lleoliad/ Location	**Canolfan y Fron**

Rhaglen / Agenda

(noder y bydd Mr Huw Roberts yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Mr Huw Roberts will be in attendence to translate proceedings)

1 **Croeso'r Cadeirydd /** ***Chairman's Welcome***

2 **Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau /** ***Apologies from Members***

3 **Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen /** ***To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.***

4 **Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 18 Mehefin 2018 fel Rhai Cywir-** ***To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 18 June 2018, as a true record .***

5 **Materion yn Codi o'r Cofnodion –** ***Maters Arising from the Minutes***

a) **Delwedd Dyffryn Nantlle**
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fore Mercher, 11 Hydref am 9.30 y bore yn Plas Silyn, Penygroes. Cyng. Hwyel Owen a Cyng. Helen Hughes sydd wedi cynrychioli y Cyngor yn y cyfarfodydd blaenorol. Next meeting to be held 11 October, 9.30 am at Plas Silyn , Penygroes

b) **Cerrig Cofeb Capeli Bryn'rodyn a Brynrhos/ Memorial Headstone Bryn'rodyn & Brynrhos Chapels**
Diweddariad ar y noson.

c) **Cae Chwarae Y Groeslon / Playing Field for Groeslon**
Diweddariad ar y noson gan aelodau lleol.

ch) **Hen Ysgol Carmel / Carmel Old School**
Dim ymateb gan yr Adran Gynllunio ynglŷn cais cynllunio gan y perchennog ar gyfer yr hawl i droi'r adeilad yn annedd. Cadarnhad wedi ei dderbyn gan Swyddog Stadau Cyngor Gwynedd and oes gan y perchennog unrhyw hawl i ddefnyddio

d) **Tan ar y Comin /** ***Gorsefires on Common Land***
Anfonwyd llythyr i Brif Swyddog Tan ac Achub Gogledd Cymru I ddiolch am ei gwaith yn diffodd y tan nôl yng Ngorffennaf. Ymhellach nodwyd fod y Cyngor Cymuned yn awyddus i drefnu cyfarfod gyda'r asiantaethau

perthnasol i drafod y tannau ac i adnabod unrhyw wersi i'r dyfodol. Cysylltwyd gyda Chymdeithas y Porwyr Uwch Gwyrfai a Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri. Dywed Rhys Owen fod cais wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am £400,000 i reoli llystyfiant ar y comin . Disgwylir clywed os fydd y cais yn llwyddo yn ystod Medi/Hydref. Awgrym RO felly yw dal yn ôl hyd nes y clywir gan y Llywodraeth a threfnu cyfarfod gyda'r Frigâd Dan, Y Porwyr, Y Parc a'r Cyngor Cymuned.

dd) **Lloches Bws Carmel / Carmel Bus Shelter**

Ystyried pris gan Bensaer i ddarparu cynlluniau ar gyfer adleoli'r lloches.
Pris GO = £1,795 + £686 ffi QS I prisio ddau opsiwn cyn mynd allan I tender

e) **Panel Ymgysylltu / Consulting With The Public Panel**

Ystyried prisiau gan arbenigwyr ar gyfer cynorthwyo'r Panel gyda'r gwaith. Pris gan Cwmni Celyn o £1600

f) **Baw Ci yn Y Groeslon / Dog Fouling Groeslon**

Derbyniwyd yr ymateb canlynol gan Peter Simpson Rheolwr Gwasanaethau Stryd , Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi trafod y mater yma gyda'r Arweinydd Tîm, Rheolwr Glanhau ac wedi pwysleisio'r angen i wagio'r bin yn rheolaidd. Mae croeso i chwi cysylltu yn ôl os oes unrhyw broblem bellach.
Cofion

ff) **Toiled y Marine Dinas Dinlle / Marine Toilet Dinas Dinlle**

Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried yr holl opsiynau ar gyfer 2019-20 cyn sefydlu'r gyllideb.

g) **Cae Pêl-droed Carmel / Carmel Football Field**

Arwyddion wedi ei gosod. Warden Cwn , Tomos Wyn Jones, wedi bod yn ymweld â'r cae. Am ymweld eto o dro i dro.

ng) **Gwaith Wedi Ei Archebu - Diweddariad / Committed Works - Latest**

- Gwaith Clirio a Gordyfiant Bryn'rodyn
- Gwaith Clirio a Gordyfiant Llandwrog
- Cerrig Beddi Profion Diogelwch Fynwent Llandwrog Cemetery Safety Checks on Headstones

6 Derbyn Cofnodion Panel Y Clerc a gynhaliwyd 12 Medi 2018 fel rhai cywir ***- To accept the minutes of the Clerks Empolyment Panel , held on the 12 of September 2018, as a true record***

7 Materion yn Codi o'r Cofnodion ***– Maters Arising from the Minutes***

8 Mater Arbennig – Gwasanaeth Bws (Bysus Huw) / *Urgent Matter – Bus Services (Bysus Huw)*

Bysus Huw wedi colli trwydded i gynnal gwasanaeth bws o 2 Medi 2018. Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i gael ymgymerwyr eraill i gynnal y gwasanaeth ac i ddilyn yr un amserlen o Ddydd Llun 3 Medi. Nifer o ddefnyddwyr bysus wedi cysylltu gyda; Clerc a Chynghorydd Dilwyn Lloyd yn bryderus am y sefyllfa

9 Materion yn codi gan Aelodau / *Maters Arising from Members*

Cyng. Gerwyn Owen , Y Groeslon –
Llifogydd Y Groeslon
Gohebiaeth rhwng GO a Chynghorydd Eric Jones
GO
Nid oes yna unrhyw sylw, datrysiad na gwybodaeth wedi dod yn ôl gennych, na gan unrhyw swyddog y Cyngor ynglŷn ag unrhyw 'solution' i'r broblem.
Rydym yn ffodus gyda'r tywydd ar y funud, ond fel yr arfer yn sydyn iawn fydd hyn yn troi, ac efallai yn yr un sefyllfa o drigolion yn cael trafferth dwr yn eu tai.

Mae cymdogion drws nesa imi, Meirion a Marilyn, wedi gorfod gwario arian sylweddol i ddatrys problem gyda'r culvert pipe, ac yn ymwybodol o gymydog arall yn y stad yn cael trafferth efo 'ground/wall erosion' oherwydd y ddwy afon sydd yn rhedeg trwy/gyferbyn ein stad.
Mae Maldwyn o'r Cyngor wedi son wrth Robat, Rhif 1 Cae Sarn, fod 'na trefn gwaith, ac arian ar gael, i wneud rhywfaint o waith, ond heb dderbyn fwy o wybodaeth.
Rwy'n awyddus i gyd-weithio i sicrhau fod ni ddim yn gweld yr un problemau eto'r gaeaf yma.

Ymateb EJ
Annwyl Gerwyn
Parthed dy e-bost yn ymwneud a'r ohebiaeth ynglŷn â'r llifogydd a fu yn y Groeslon ac yn arbennig y broblem sy'n bodoli gyda'r afon a'i pherchnogaeth. Gallaf eich sicrhau fod mwy nag un o adrannau'r Cyngor wedi cyd weithio i ddatrys y broblem ond rwyf ar ddeall mai Adran Ymgynghoriaeth y Cyngor sydd yn wynebu'r dasg i dynnu allan y cynllun. Yn groes i'r hyn yr ydych wedi ei glywed nid yw Malcolm Owens o Adran YCG o'r farn bod arian i gario allan y gwaith ar gael eto. Mae'r sefyllfa yma yn un poenus iawn a rhaid dweud fy mod yn rhannu eich pryderon, Gwnaf fy ngorau a dof i gysylltiad â chwi pan gaf adroddiad pellach at y sefyllfa.

Cyng. Alun Wyn Jones –
Ffoes Brynrhos lawr i Teras Dyffryn

Cyng. Gerwyn Owen
Diffyg gwagio biniau cwn**.** Gofyn beth yw amserlen CG i wagio y biniau. Bin Penbonc, Groeslon yn llawn.

Diffyg glanhau dreiniau.

Cyng. Eddie Willhcox
Parcio yn y Fron / Parking at Y Fron.
Road edges/All areas
Dog sign/Fron
Footpath/Fron
Community council's website
Communications from GCC

10 Archwilio Cyfrifon 2017-18 / Audit of Accounts 2017-18 Datganiad Blynyddol - Cyfrifon Terfynol 2017-18 Annual Return (Financial End of Year Statement)

Ystyried yr adroddiad a gweithredu fel bo'r anegni / To consider the Auditors Report and act accordingly

GWEITHREDU – ystyried yr adroddiad
ACTION REQUIRED – to consider the report

11 Adolygiad o Sector Cynghorau Cymuned yng Nghymru / Review of Community Councils Sector in Wales

Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru Canfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol
Independent Review Panel on Community and Town Councils in Wales Outline Findings and Recommendations

(**Anfonwyd copi o'r argymhellion i bob aelod trwy e-bost 10 Awst 2018)**
Cadeirydd y Cyngor wedi bod mewn cyfarfod ar 15 Awst 2018 yn Llandrindod a drefnwyd gan Un Llais i drafod yr adroddiad.
Diweddariad ganddo ar y noson

Clerc yn mynychu Cynhadledd Flynyddol Un Llais ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd Dydd Sadwrn 29 Medi 2018 gyda'r canlynol yno -

Alun Davies AC : Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus : a fydd yn siarad am y camau nesaf ar daith Diwygio Llywodraeth Leol a rolau a swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref i'r dyfodol

Cyng Debbie Wilcox Arweinydd y WLGA: a fydd yn siarad am ddyfodol Llywodraeth Leol a'r berthynas waith i'r dyfodol rhwng dwy haen Llywodraeth Leol.

Dau aelod o'r Panel Adolygu Annibynnol (enwau i'w cadarnhau): a fydd yn siarad am y broses adolygu annibynnol ac yn rhoi adborth ar eu canfyddiadau.

GWEITHREDU – ystyried yr argymhellion
ACTION REQUIRED – to consider the recommendations

Gohebiaeth / Communication

12 Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Ffordd Gwynedd- Adran Cynllunio

Derbyniwyd y llythyr canlynol gan Adran Cynllunio dyddiedig 10 Awst 2018
Par: Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cynnal ymarferiad Ffordd Gwynedd er mwyn deall y system yr ydym yn gweithio ynddi'n well ac, drwy wneud hynny, edrych ar sut y gallwn newid neu addasu i gynnig y gwasanaeth gorau o fewn ein gallu i'n amryw gwsmeriaid. Fel rhan o'r gwaith yma mae'n hanfodol ein bod yn gyntaf yn deall beth sydd yn bwysig i'n cwsmeriaid ac, gan eich bod chi wedi'ch adnabod fel un o gwsmeriaid allweddol y Gwasanaeth, 'rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn gofyn am eich barn. O ganlyniad gwerthfawrogwn pe baech yn gallu rhoi eich ymateb onest i'r isod: 1. Yn ddelfrydol, beth 'rydych chi yn ddymuno ei gael neu ei weld gan y Gwasanaeth Cynllunio? 2. Yn ddelfrydol, sut y byddech am i ni ddarparu hyn i chi? Gallwch ddarparu ymateb drwy anfon e-bost i: cynllunio@gwynedd.llyw.cymru a rhoi 'Ffordd Gwynedd' yn y blwch teitl a byddwn yn ddiolchgar os gallwch wneud hyn cyn yr 14 o Fedi, 2018. Diolch o flaen llaw am eich mewnbwn gwerthfawr

Re: Ffordd Gwynedd and the Planning Service Exercise The Planning Service is currently undergoing a Ffordd Gwynedd exercise to gain a better understanding of the system we are working within and in doing so we will look at how we can change or adapt it to offer the best possible service to our various customers. As part of this work it is crucial that we first understand what is important to our customers, and because you have been identified as one of the Service's key customers, we write to you to ask for your opinion. Therefore, I would be grateful if you could provide your honest response to the following: 1. What would you ideally wish to receive or see from the Planning Service? 2. How would you ideally want us to provide this? Please send your response by e-mailing and typing planning@gwynedd.llyw.cymru 'Ffordd Gwynedd' in the subject box and I would be grateful if you could do this by 14th of September, 2018.

GWEITHREDU – ystyried y caisc ac ymateb
ACTION REQUIRED – to consider the request and response

13 Un Llais Cymru / One Voice Wales
Rhaglen Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor 12 Medi2018
Cofnodion cyfarfod 12 Mehefin 2018

14 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications
Ceisiadau Medi 2018 - Applications for September 2018

Cais Rhif / Application Number - **C18/0634/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Cae Goronwy, Llandwrog Uchaf, LL54 7PU**
Bwriad / Proposal - **Cais diwygedig i'r hyn a wrhodwyd o dan C18/0398/17/LL**
Gwrthodwyd y cais cyntaf gan Cyngor Gwynedd – first application was refused by Gwynedd Council
Ni chredir fod ffurf, gosodiad a dyluniad yr estyniadau yn gweddu nag yn gwella edrychiad a chymeriad y bwthyn yma, nid yw'r agoriadau newydd bwriedig ar y blaen yn gweddu gyda'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig ar fwthyn traddodiadol o'r math yma, mae'r cynnig felly yn ei gyfanrwydd yn cael ei ystyried yn groes i ofynion perthnasol polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017).
It is not considered that the form, scale and design of the proposed extensions are in keeping with or improves the appearance and character of this cottage; the proposed new openings on the frontage are also not considered appropriate,

the proposal as a whole is therefore considered to be contrary to the relevant requirements of policies PCYFF 2 and PCYFF 3 of the Gwynedd and Mon Joint Local Development Plan (July 2017).

Materion Ariannol / Financial Matters

15 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Gorffennaf ac Awst 2018 – Income Received July and August 2018

Manylion / Details	Cyfanswm
Cyngor Gwynedd - Praesept Rhan 2 / Part 2	(£24,000.00)
HMRC – Ad-daliad TAW / Repayment of VAT	(£2,793.37)
Roberts ac Owen – Ffi Claddu / Burial Fees	(£315.00)

16 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Awst 2018 – Clerks Salary August 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Awst 2018– Income Tax August 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc– Awst 2018– Clerks Allowance August 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Cyflog y Clerc – Medi 2018 – Clerks Salary Sept 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Medi 2018– Income Tax Sept 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc– Medi 2018– Clerks Allowance Sept 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Designer Signs, Penygroes – Arwyddion Cae Chwarae / Signs	£261.50	£313.80	101832
GDPR – Ffi Cofrestru / Registration Fee	£40.00	£40.00	101833
Zurich – Yswiriant y Cyngor / Council Insurance	£1,233.43	£1,233.43	101831
Cyngor Gwynedd - Cyfraniad at Toiled y Marine 2018-19	£4,000.00	£4,000.00	101830
Costau Teithio – Cyfarfod yn Llandindod – Travel Costs	£94.50	£94.50	101834
Microsoft – Trwydded ”Office” Licence	£60.00	£60.00	101835

17 Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf / *Dates of Next Meetings*

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Hydref / October Full council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 15 Hydref 2018 / Monday 15 October 2018
Amser / Time - 7.30 yr hwyr
Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan y Fron – i'w gadarnhau / to be decided

Cyfarfod / Meeting **– Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be decided
Amser / Time am
Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting **– Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo/ Cemeteries & Property Committee**
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be decided
Amser / Time am
Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting **– Gweithgor y Clerc / Clerks Panel**

Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be decided
Amser / Time am
Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting – **Panel Ymgysylltu / Consulting Panel**
Dyddiad / Date - Nos Fercher – 26 Medi 2018
Amser / Time am
Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting – **Panel Rheolau Sefydlog / Standing Orders Panel**
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be decided
Amser / Time -
Lleoliad / Venue –

18 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (15 Hydref / 15 October 2018)
Matters to be raised by members in the next meeting

Diwedd - end